



PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF CABINET

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Mercher, 3 Hydref 2018 am 2.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M Webber Y Cyngorydd R Bevan
Y Cyngorydd A Crimmings Y Cyngorydd G Hopkins
Y Cyngorydd M Norris Y Cyngorydd J Rosser
Y Cyngorydd R Lewis Y Cyngorydd C Leyshon

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol
Mr C Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr C Atyeo, Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a Chaffael
Mr N Wheeler, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Mr A Griffiths, Pennaeth Materion y Priffyrdd a Pheirianeg
Ms. J. Hadley, Rheolwr Trefniadaeth Ysgolion
Ms C Jones, Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant
Ms A Richards, Pennaeth Ysgolion yr 21ain Garrif

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cyngorydd S Belzak
Y Cyngorydd S Bradwick
Y Cyngorydd P Jarman
Y Cyngorydd G Thomas
Y Cyngorydd L Walker

41 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

42 RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF - CYNIGION I WELLA

DARPARIAETH ADDYSG YM MHONTYPRIDD FWYAF

Cyfeiriodd Pennaeth Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yr Aelodau at yr adroddiad ger eu bron a oedd yn ceisio gwella ansawdd y ddarpariaeth addysg sydd ar gael yn ardal Pontypridd Fwyaf, Rhondda Cynon Taf, trwy fwrw ymlaen â'r cynigion canlynol, a siaradodd y Swyddog amdany'n nhw'n fanwl:-

- Datblygu Canolfannau Rhagoriaeth Ôl-16 yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog, y Beddau, a Choleg y Cymoedd, Nantgarw, gan fuddsoddi £10 miliwn yn y ddarpariaeth chweched dosbarth newydd yn Ysgol Bryncelynnog;
- Creu dwy ysgol 3-16 oed newydd, ym Mhontypridd a'r Ddraenen Wen, a fydd yn arddel dull gwahanol iawn o addysgu yn yr ardaloedd dan sylw, gan rannu adnoddau'r sectorau cynradd ac uwchradd, a chan fuddsoddi £16.7 miliwn i wella cyfleusterau addysgol;
- Gwella a chynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy fuddsoddi £10.7 miliwn mewn ysgol newydd yn lle Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton a ffrwd Gymraeg Ysgol Gynradd Heol-y-Celyn.

Cafodd yr Aelodau wybod am ychydig o wallau teipio yn y ddogfen ymgynghori, ond cadarnhaodd y swyddog fod y rhain wedi cael sylw. Cafodd yr Aelodau wybod am y rhesymeg dros y penderfyniad a'r broses ymgynghori statudol angenrheidiol y byddai angen ei symud yn ei blaen mewn perthynas â'r cynigion.

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes sylwadau ar y cynigion a'r manylion yn yr adroddiad a'r papur ymgynghori, gan ychwanegu bod angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn darparu'r canlyniadau gorau posibl i bob disgybl, gan mai dyma'r hyn yr oedden nhw i gyd yn ei haeddu. Gwnaeth yr aelod o'r Cabinet sylwadau ar y gostyngiad yn niferoedd y myfyrwyr chweched dosbarth a'r rhesymeg dros y cynigion. Cyfeiriwyd hefyd at fynediad at gludiant o fewn y cynigion.

Gwnaeth Aelodau eraill o'r Cabinet sylwadau ar bwysigrwydd cynnal yr ymgynghoriad statudol pe byddai'r cynigion yn cael eu symud yn eu blaen i sicrhau bod modd ystyried barn y rhai a fydd yn cael eu heffeithio.

Siaradodd y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol S Belzak a L Walker ar yr eitem yma, ac ymatebodd y swyddogion.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD** yr Aelodau:

1. Nodi'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad.
2. Dechrau ymgynghori ar y cynigion penodol canlynol fel sy wedi'i amlinellu yn yr adroddiad:
 - a) Cau'r chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain a throsglwyddo'r ddarpariaeth ôl-16 i Ysgol Gyfun Bryncelynnog neu Goleg y Cymoedd, Nantgarw. Y bwriad yw buddsoddi £10 miliwn mewn gwella cyfleusterau chweched dosbarth Ysgol Gyfun Bryncelynnog. Bydd modd i'r

myfyrwyr hynny sy'n dewis addysg Eglwys Gatholig Rhufain wneud cais am ddarpariaeth chweched dosbarth yng Ngholeg Dewi Sant, Caerdydd, a bydd y Cyngor yn darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol;

- b) Cau Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Gynradd Cilfynydd ac agor ysgol 3-16 oed ar safle presennol Ysgol Uwchradd Pontypridd, gan fuddsoddi £4.7 miliwn mewn cyfleusterau gwell;
- Cau Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gynradd Heol-y-Celyn ac agor ysgol 3-16 oed ar safle presennol Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen, gan fuddsoddi £12 miliwn mewn cyfleusterau gwell. Bydd dosbarthiadau arbenigol ADY yr awdurdod lleol, sydd wedi'u lleoli yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen hefyd yn cael eu symud i'r ysgol newydd.
 - Cau Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton ac adeiladu ysgol gynradd Gymraeg newydd ar safle presennol Ysgol Gynradd Heol-y-Celyn. Bydd y disgyblion sy'n mynychu YGG Pont Siôn Norton, ynghyd â'r rhai sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn Heol-y-Celyn, yn trosglwyddo i'r ysgol newydd, yn ddibynnol ar ddewis eu rhieni. Bydd disgyblion Heol-y-Celyn sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn trosglwyddo i'r ysgol 3-16 oed newydd yn y Ddraenen Wen, unwaith eto yn ddibynnol ar ddewis eu rhieni.
- c) Y bydd yr holl gynigion yn cael eu gweithredu erbyn 2022.

Nodwch:

- Fel sy wedi'i nodi yng Nghofnod 41, datganodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A Crimmings fuddiant personol sy'n rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod am hyd yr eitem.
- Datganodd y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol M Webber, S Belzak a S Bradwick ddiddordebau personol fel sy wedi'u nodi yng Nghofnod 41.
- Gadawodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol S Belzak y cyfarfod ar ddiwedd yr eitem.

43 AAA – Adolygiad o Ddosbarthiadau Cymorth ADY

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant ei hadroddiad a roddodd sylw i gyfle i ystyried cynigion ar gyfer aildrefnu darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu prif ffrwd yn Rhondda Cynon Taf, er mwyn gwella continwwm darpariaeth AAA y mae modd i'r Awdurdod ei gyflawni.

Parhaodd y Cyfarwyddwr gan roi gwybod am fanteision sylweddol aildrefnu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu i sicrhau bod AAA yr holl blant a phobl ifainc yn cael eu diwallu a bod canlyniadau ar gyfer disgyblion yn gwella. Bydd yr aildrefnu arfaethedig yn sicrhau bod gan yr Awdurdod Lleol ffocws gwell ar ddarparu cyfleoedd mwy effeithiol i gynnwys disgyblion ag ystod eang o AAA mewn addysg brif ffrwd.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes o blaid y cynigion a chyflwynodd sylwadau ar y rhesymeg dros y cynigion fel sy wedi'i

hamlinellu yn yr adroddiad a'r gyfradd uchel o leoedd dros ben ar hyn o bryd. Cyfeiriwyd hefyd at ddarpariaeth cludiant.

CYTUNWYD:

1. Nodi'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad.
2. Ail-drefnu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu prif ffrwd Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yng nghyd-destun Cod Trefniadaeth Ysgolion (2013) a'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.
3. Dechrau ymgynghori ar y cynigion canlynol, sy wedi'u cynnwys yn yr adroddiad:
 - a) Cau'r Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Sylfaen ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Heol-y-Celyn - dim disgyblion wedi'u cofrestru yno ym mis Medi 2019
 - b) Cau'r Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Sylfaen ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Pen-rhys - dim disgyblion wedi'u cofrestru yno ym mis Medi 2019
 - c) Cau'r Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn Ysgol Gynradd Pen-y-waun - dim disgyblion wedi'u cofrestru yno ym mis Medi 2019
 - d) Cau'r Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Sylfaen ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Pont-y-gwaith - dim disgyblion wedi'u cofrestru yno ym mis Medi 2019
 - e) Cau'r Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Heol-y-Celyn - 2 ddisgybl wedi'u cofrestru yno ym mis Medi 2019
 - f) Cau Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Caradog - 8 disgybl yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Cwm-bach;
 - g) Cau'r Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Sylfaen ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Caradog a'i symud i Ysgol Gynradd Cwm-bach. Bydd hyn yn creu darpariaeth ar draws cyfnodau allweddol o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2.
 - h) Cau'r Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Sylfaen ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Pen-rhys a'i symud i Ysgol Gymuned y Maerdy. Bydd hyn yn creu darpariaeth ar draws cyfnodau allweddol o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2.

- i) Cau'r Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Cyfathrebu yn Ysgol Gynradd yr Hafod a'i symud i Ysgol Gymuned y Porth (3-16 oed) er mwyn creu darpariaeth ar draws cyfnodau allweddol o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4.
- j) Ail-ddynodi Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Sylfaen ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Parc y Darren a dosbarth Arsylwi ac Asesu - Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Gynradd Llantrisant yn Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu Asesu ac Ymyriad y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol.
- k) Creu Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Allweddol 3/4 ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn Ysgol Nant Gwyn
- l) Creu Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Allweddol 3/4 ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gyfun Treorci.

(O.N. Fel sy wedi'i nodi yng Nghofnod 41, datganodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol R Bevan a S Bradwick fuddiant personol mewn perthynas â'r eitem.)

44 ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD DIOGELU CWM TAF

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Cwm Taf i'r Aelodau, a oedd yn dangos effeithiolrwydd y Bwrdd wrth arfer ei swyddogaethau yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18.

Cafodd yr Aelodau fanylion ynghylch arferion diogelu, cydweithredu, ymgysylltu, cyfranogi a chyfathrebu, gwybodaeth, hyfforddiant a dysgu, fel sy wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg o blaid yr adroddiad a'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn perthynas â Diogelu. Cafodd y sylwadau yma eu hategu hefyd gan yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc mewn perthynas â'r gwaith sy wedi'i wneud gan y Bwrdd ar gyfer Plant ac Oedolion.

CYTUNWYD:

1. Nodi a chymeradwyo cynnwys Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Cwm Taf ar gyfer 2017/18.

45 GWAITH DEUOLI I ADRANNAU 5 A 6 DOWLAIS TOP I HIRWAUN AR YR A465 FFORDD BLAENAU'R CYMOEDD

Rhoddodd Pennaeth y Priffyrdd a Pheirianneg y diweddaraf i'r Cabinet ar y sefyllfa bresennol ynglŷn ag Adranau 5 a 6 Dowlais Top i Hirwaun, yr A465

Ffordd Blaenau'r Cymoedd, gan gynghori y byddai gwaith o'r fath yn mynd i'r afael â materion tagfeydd, diogelwch a chapasiti yn ogystal â rhoi hwb economaidd i'r ardal. Byddai'r gwaith yn cwblhau ffordd gerbydau ddeuol ar hyd Blaenau'r Cymoedd sydd o bwysigrwydd cenedlaethol a strategol, gan ddarparu cyswllt allweddol ar draws gogledd y Cymoedd ar gyfer y Metro a gwella gwydnwch rhwydwaith trafndiaeth y Fargen Ddinesig.

Cafodd yr Aelodau eu hysbysu y byddai'r deuli'n darparu manteision economaidd ehangach gan gynnwys effaith gymdeithasol hygyrchedd gwell, cynnydd mewn cynhwysiad cymdeithasol, gwell hygyrchedd i dwristiaid a gwella argraff ac enw Blaenau'r Cymoedd yn ardal ar gyfer buddsoddi.

Gwnaeth yr Arweinydd sylw ar y gwaith cadarnhaol sy wedi'i wneud hyd yn hyn a'r cyfarfodydd gyda Jacobs, Llywodraeth Cymru ac Aelodau Lleol mewn perthynas â'r dyluniad a chyflwynodd sylwadau ar yr angen am ddeuli'r rhannau fel sy wedi'i amlinellu yn yr adroddiad. Cyfeiriodd yr Arweinydd hefyd at gynllun ffordd osgoi Aberdâr (Mynedfa Gogledd Cwm Cynon) a chyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru a phwysleisiodd y dylid symud y ddau gynllun yn eu blaenau ar yr un pryd, er mwyn osgoi colli unrhyw amser rhwng y ddau.

Siaradodd y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol G Thomas a P Jarman ar y mater hefyd.

Yn dilyn trafodaethau nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn ystyried opsiwn tair cylchfan ger Croesbychan ond dydy Llywodraeth Cynulliad Cymru ddim wedi cyhoeddi unrhyw ddogfennau ffurfiol ynglŷn â hyn. Roedd cadarnhad y byddai RhCT yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i wirio pe bai opsiwn tair cylchfan yn mynd rhagddo fyddai Mynedfa Gogledd Cwm Cynon ddim yn cael ei pheryglu gan yr opsiwn yma.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r cynigion sy wedi'u llunio gan Lywodraeth Cymru i ddeuli'r A465 presennol rhwng Dowlais Top a Hirwaun.
2. Nodi'r llythyr o gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Mynedfa Gogledd Cwm Cynon y Cyngor (fel sy wedi'i amlinellu yn Atodiad A yr adroddiad).
3. Caniatáu i'r Cyngor gefnogi cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer deuli'r A465.

(Nodwch: Ar ddiwedd yr eitem yma, gadawodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol P Jarman y cyfarfod.)

46 GWEITHDREFNAU CWYNION A SYLWADAU - ADRODDIAD BLYNYDDOL.

Rhoddodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant drosolwg i'r Cabinet o'r trefnau gweithredu ac effeithiolrwydd gweithdrefnau cwyno Gwasanaethau Cymdeithasol Statudol y Cyngor rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gyfadran fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ar gefndir gweithdrefn gwynion statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, gwybodaeth am wersi sy wedi'u dysgu o gwynion

a data cyflawniad ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ac i Blant, ynghyd â chyflawniadau ar gyfer 2017/18 a datblygiadau yn y dyfodol.

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc i Gyfarwyddwr y Gyfadran am yr adroddiad a siaradodd am waith cadarnhaol y gwasanaeth fel sy wedi'i adlewyrchu yng nghynnwys yr adroddiad.

CYTUNWYD:

1. Nodi cynnwys adroddiad Cwynion Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol (wedi'i atodi fel Atodiad 1 yr adroddiad)
2. Nodi'r gwaith sy wedi'i wneud gan Garfan Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol.

(Nodwch: Ar ddiwedd yr eitem yma, gadawodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G Thomas y cyfarfod)

47 Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol

Rhoddodd Cyfarwyddwr Gyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, yntau'n rhinwedd ei ddyletswyddau'n Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, drosolwg sydyn o'i adroddiad blynyddol a amlinellodd materion gweithredu, cyflawniad, risgiau a gwelliannau sydd ar y gweill ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor ar gyfer 2017/18.

Cafodd Aelodau'u hatgoffa i adroddiad drafft gael ei gyflwyno i'r Cabinet, a'i fod wedi bod yn destun y broses graffu ers hynny yn y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc a'r Pwyllgor Materion Iechyd a Lles ar gyfer ymgynghori. Ychwanegodd Cyfarwyddwr y Gyfadran fod yr adborth cyffredinol yn gadarnhaol a rhoddodd wybod i'r Aelodau am y mân newidiadau sy wedi'u dwyn ymlaen.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg adroddiad cadarnhaol y Cyfarwyddwr a oedd y nodi bod y gwasanaeth yn parhau i wella, gan sôn ymhellach am bwysigrwydd gweithio gyda phartneriaid. Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet hefyd am y pwysau cynyddol ym maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion, ond ychwanegodd fod y Cyngor mewn lle da i fodloni'r galw amdany'n nhw yn y dyfodol.

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc sylwadau ar yr anghenion cymhleth sydd gan Blant sy'n Derbyn Gofal a'r gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud gyda gwasanaethau mynediad cynnar, cyfeirio, ymyrraeth a gwytnwch sydd ar gael.

CYTUNWYD:

1. Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol Rhondda Cynon Taf (fel sy wedi'i atodi yn Atodlen 1 yr Adroddiad) ar gyfer ei gyhoeddi.

